MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr Usk on Dydd Gwener, 21ain Tachwedd, 2025 at 10.00 am

PRESENT: County Councillor Tudor Thomas (Chairman)

County Councillors: Alistair Neill and Jackie Strong

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Linda O'Gorman	Prif Swyddog Trwyddedu
Emma Watkins	Licensing Officer
Julian Sanders	Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

APOLOGIES:

Councillors

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. **Cais am Drwydded Safle Newydd – Pugh's Garden Kitchen.**

Ystyriwyd cais ar gyfer trwydded safle newydd dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ar gyfer Pugh's Garden Kitchen, 7-9 Mill Street, Y Fenni, NP7 5HE ar gyfer y canlynol:

- Cyflenwi Alcohol: Dyddiau Llun – Mercher 09:00-18:00 (ar ac oddi ar y Safle) Dyddiau Iau - Sadwrn – 09:00-22:00 (ar ac oddi ar y Safle) Dyddiau Sul – 10:00-16:30 (ar ac oddi ar y Safle).

- Oriau Agor (amserau arferol): Dyddiau Llun – Mercher – 08:00-18:00 Dyddiau Iau - Sadwrn – 08:00-23:00 Dyddiau Sul – 10:00-17:00.

https://www.youtube.com/live/9rhpHPidqCI?si=Pxtbin8Q0gywvWiG&t=164

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeiswyr a chynrychiolydd y gwrthwynebwyr i'r cyfarfod a chyflwynodd Aelodau'r Is-bwyllgor a'r Swyddogion oedd yn bresennol ac esbonio'r protocol ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd yr ymgeiswyr a chynrychiolydd y gwrthwynebwyr iddynt gael yr adroddiad, dogfennau ychwanegol a threfn y gwrandawiad.

Cydnabu'r ymgeiswyr y byddent yn symud ymlaen heb gynrychiolaeth gyfreithlon.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr Usk on Dydd Gwener, 21ain Tachwedd, 2025 at 10.00 am

Cafodd y materion a manylion allweddol eu darllen yn uchel i'r Is-bwyllgor.

Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y gwrthwynebwyr wedyn i annerch yr Is-bwyllgor, i gyflwyno'r gwrthwynebiadau i'r cais.

Wedyn rhoddwyd cyfle i'r ymgeiswyr i annerch yr Is-bwyllgor i gyflwyno unrhyw esboniadau perthnasol.

Yn dilyn hyn, cyflwynodd Aelodau'r Is-bwyllgor gwestiynau i'r ymgeiswyr a chynrychiolydd y gwrthwynebwyr a dilynodd trafodaeth. Wedyn cafodd yr ymgeiswyr a chynrychiolydd y gwrthwynebwyr gyfle i grynhoi.

Yn dilyn cwestiynau, gadawodd aelodau'r Is-bwyllgor a Chyfreithiwr Cyngor Sir Fynwy y cyfarfod i ystyried a thrafod y canfyddiadau.

Ar ôl ail-ddechrau, dywedodd y Cadeirydd a Chyfreithiwr Cyngor Sir Fynwy fod yr Is-bwyllgor wedi penderfynu'n unfrydol i gymeradwyo'r cais.

Cadarnhaodd y Cadeirydd hefyd fod yr ymgeisydd wedi derbyn yr holl amodau a wnaed gan yr heddlu yn dilyn y trafodaethau preifat.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor y rhesymau canlynol am y penderfyniad i gymeradwyo'r cais:

- Fe wnaeth yr Is-bwyllgor ymestyn ei drafodaethau i gynnwys mater parcio ceir i gyfarch y pryderon a wnaed gan y gwrthwynebwyr. Nododd yr Is-bwyllgorau fod llinellau melyn ar hyd Stryd y Felin a bod maes parcio gyferbyn â safle'r ymgeisydd. Nododd hefyd fod gorsaf fysus gyferbyn â'r safle i annog trafnidiaeth gyhoeddus.

- Cydnabu'r Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd yn cytuno i ostwng yr oriau o 11.00pm i 10.00pm ar gyfer gwerthu alcohol ar ddyddiau Iau, Gwener a Sadwrn.

- Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad fod hwn yn fusnes y dylai'r Awdurdod fod yn ei ddenu i'r Fenni.

- Ystyriodd yr Is-bwyllgor y mesurau a gymerwyd gan y busnes i ostwng y lefelau sŵn, yn cynnwys ffenestri dwbl, insiwleiddio a mesurau gwrthsain.

The meeting ended at 11.21 am